

Adolygiad o'r arfer o rwydo o'r lan yng Nghymru

Diben

Yng nghyfarfod cyntaf Grŵp Cynghori Cymru ar Ddraenogiaid Môr (WSBAG), rhoddwyd cyflwyniad bras ar y Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Draenogiaid Môr yn Nyfroedd Cymru a Lloegr (yr 'FMP') sy'n disgrifio'r gweithredoedd a'r blaenoriaethau tymor byr sy'n cael eu cynnig ar gyfer Cymru. Cafwyd cytundeb bras yn y grŵp ynghylch y camau tymor byr sydd angen eu cymryd, gan gynnwys ymrwymiad i adolygu'r arfer o rwydo o'r lan ac yn nŵr bas y glannau i sicrhau bod mesurau digonol ar gyfer gwarchod pysgod mudol a draenogiaid môr ifanc ac sy'n silio.

Pwrpas y papur hwn yw cychwyn y drafodaeth am y pwnc hwn. Yng nghyfarfod y grŵp cynghori ar 17 Medi 2024, nodwyd bod y diffyg gwybodaeth am ddalfeydd rhwydi o'r lan wedi creu bwlch yn y dystiolaeth am y bysgodfa draenogiaid môr fasnachol a hamdden. Am hynny, a'r gwahaniaethau rhwng y ddau weithgaredd, rydym wedi penderfynu dechrau trwy adolygu gweithgareddau rhwydo o'r lan. Byddwn yn cynnal adolygiad o'r arfer o rwydo yn nŵr bas y glannau (gan ddefnyddio cychod) ar wahân.

Mae'r papur yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth gefndirol ynghylch pam mae angen adolygiad, disgrifiad o rwydo o'r lan a hanes byr y gweithgaredd hwn a sut y mae wedi cael ei reoleiddio yng Nghymru. Mae'r papur yn cyfeirio hefyd at rywfaint o wybodaeth berthnasol gan CNC am rwydo eogiaid o'r lan fel sgil-ddalfa lle maent yn nodwedd ddynodedig Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA).

Hoffem glywed barn y grŵp cynghori ar gynnwys yr adolygiad a'r pwyntiau a'r opsiynau a godir cyn cyhoeddi'r fersiwn derfynol. Bydd yn rhaid cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar unrhyw gynigion i newid y rheolau presennol ar rwydo o'r lan cyn newid unrhyw drefniadau rheoli.

Y cefndir

Yn unol â Deddf Pysgodfeydd (2020) a Chyd-ddatganiad Pysgodfeydd 2022, cyhoeddwyd yr FMP yn 2023. Er mwyn sicrhau rheolaeth effeithiol ar stociau draenogiaid môr yn nyfroedd Cymru a Lloegr dros y 6 blynedd nesaf, nododd yr FMP 9 nod gyda gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar flaenoriaethau rheoli domestig.

Roedd y gweithgareddau hynny'n cynnwys ymrwymiad i adolygu'r arfer o rwydo o'r lan ac o rwydo yn nŵr bas y glannau i weld a oes angen mesurau gwarchod rhanbarthol neu genedlaethol ychwanegol i osgoi sgil-ddal pysgod mudol. Daw'r ymrwymiad hwn o dan Nod 8.1 yr FMP. Mae Nodau 4 a 7 yr FMP hefyd yn berthnasol fel mae'r amcanion a ddisgrifir yn adran 1 o Ddeddf Pysgodfeydd 2020 sy'n cynnwys yr amcanion ynghylch cynaliadwyedd, rhagofal, ecosystem, sgil-ddalfeydd a budd cenedlaethol.

Mae'r papur hwn yn ystyried hefyd cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch rhwydo o'r lan, y dylai Llywodraeth Cymru ystyried rhoi mwy o fesurau i warchod eogiaid a physgod mudol eraill ar waith. Mae'r papur hwn yn tynnu sylw hefyd at y cytundebau a wnaed yn 2021 rhwng y DU a'r UE ynghylch y gofyn am gofnodi a monitro dalfeydd rhwydi masnachol o'r lan. Ymdrinnir yn fanylach â'r ddau bwynt yn ddiweddarach yn y papur.

Bydd yr adolygiad yn ystyried effeithiolrwydd y ddeddfwriaeth bresennol ac a oes angen unrhyw welliannau iddi i sicrhau bod y gweithgaredd hwn yn parhau'n gynaliadwy.

Beth yw rhwydo o'r lan?

Rhwydi drysu gosod, wedi'u stancio neu eu hangori, yw rhwydi o'r lan. Maen nhw'n cael eu defnyddio yn y parth rhwng llanw a thrai heb gwch. Gosodir y rhwydi pan fydd y llanw ar ei isaf, fel arfer yn berpendicwlar i'r lan, a byddant yn codi gyda'r llanw gan hongian yn y dŵr gerfydd priflein sy'n arnofio ar wyneb y dŵr. Mae hyn yn creu llen dynn o rwyd sy'n hongian rhwng y priflein ar wyneb y dŵr a rhaff waelod â phwysau arni sy'n gorwedd ar wely'r môr neu'n agos ato. Mae'r rhwydi yn amrywio o ran hyd, gan ddibynnu ar y cyfyngiadau a osodir gan yr is-ddeddfau yn yr ardaloedd lle cânt eu gosod (gweler Tabl 1). Maent yn cael eu dal yn eu lle gan angorau confensiynol, pwysau neu linellau plwm i rwystro'r llanw rhag eu symud.

Wedi gosod y rhwyd, mae pysgod yn cael eu rhwydo naill ai wrth iddynt nofio i mewn iddi neu drwy gael eu cario iddi gan lif y dŵr. Mae pysgod yn cael eu dal gerfydd eu tegyll neu ran dewa'r corff. Gan fod rhwydi drysu'n cael eu dal yn dynn, mae modd rheoli maint y pysgod a ddelir trwy amrywio maint y rhwyllau a siâp y rhwyd. Ceir felly mwy o reolaeth ar faintiol'r pysgod a ddelir nag ar rwydi eraill ond mae hynny'n gallu yn anfwriadol arwain at sgil-ddal rhywogaethau nad ydych am eu dal.

DS: Er mai dyma'r ffordd gyffredin o ddefnyddio rhwydi o'r lan, mae technegau eraill y gellir eu defnyddio hefyd.

Er mwyn rheoli a rheoleiddio pysgodfeydd y glannau, sefydlwyd Pwyllgor Pysgodfeydd Môr y De (SWSFC) a Phwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd Orllewin Lloegr a'r Gogledd (NWNWSFC) o dan Ddeddf Rheoleiddio Pysgodfeydd Môr 1966 a rhoddwyd pwerau iddynt greu is-ddeddfau yn eu hardaloedd. Cyflwynodd y ddau Bwyllgor Pysgodfeydd Môr is-ddeddfau ar ddefnyddio rhwydi gosod gan gynnwys tymhorau caeedig i gyfyngu ar y defnydd o rwydi ar adegau pan fyddai salmonidau yn fwyaf tebygol o fudo i afonydd. Bryd hynny, defnyddid rhwydi o'r lan yn bennaf i dargedu draenogiaid môr.

Cafodd yr hen Bwyllgorau Pysgodfeydd Môr (SFCs) eu diddymu yn 2010. Mae is-ddeddfau'r pwyllgorau hyn, ynghyd ag is-ddeddfau penodol gan Asiantaeth yr Amgylchedd (EA) sy'n ychwanegu cyfyngiadau eraill y tu hwnt i ffiniau'r Pwyllgorau

wedi bod mewn grym ers 1 Ebrill 2010 fel pe baent wedi'u gwneud gan Weinidogion Cymru drwy offeryn statudol. Hynny drwy weithredu Erthygl 13(1), (3), a (4) o Orchymyn Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (Cychwyn Rhif 1, Darpariaethau Canlyniadol, Trosiannol ac Arbedion) (Cymru a Lloegr) 2010.

Yn 2010 amcangyfrifodd y Cyngor Rhyngwladol ar gyfer Archwilio'r Moroedd (ICES) fod gan yr UE boblogaeth fridio o 15,000 o dunelli o ddraenogiaid môr. Erbyn 2014 roedd y ffigur hwn wedi gostwng i 11,000 –12,000 a rhagwelwyd y byddai'n cwmpo i 10,000 erbyn 2015, y lefel isaf mewn dau ddegawd. Amcangyfrifodd ICES yn ddiweddarach y byddai'r boblogaeth fridio yn gostwng eto, ychydig o dan 8,000 yn 2017. Nododd ICES fod gorbysgota yn ffactor bwysig am y dirywiad. Dywedon nhw hefyd mai cyfanswm dalfa'r UE yn 2013 oedd 5,632 tonn, gyda 4,123 tonn wedi'u dal gan y fflyd fasnachol ac amcangyfrif o 1,500 tonn gan bysgotwyr hamdden.

Ysgogodd y gostyngiad y DU a'r UE i lunio mesurau rheoli ar y cyd yn 2015 i ddiogelu'r stoc, gan gynnwys:

- Cynyddu'r maint cyfeirio cadwraethol lleiaf (MCRS) o 36cm i 42cm.
- Caniatâd domestig i gychod â thrwydded fasnachol bysgota am ddraenogiaid môr.
- Tymor caeedig rhwng 1 Chwefror a 31 Mawrth ar gyfer pysgotwyr masnachol
- Dal a rhyddhau gan ddefnyddio gwialen a lein law yn unig o 1 Chwefror i 31 Mawrth ar gyfer pysgotwyr hamdden.
- Terfynau ar ddalfeydd a sgil-ddalfeydd pysgotwyr masnachol a hamdden.

Mae'r mesurau hyn yn cael eu hadolygu'n flynyddol yn unol â chynghor ICES a'u diwygio yn ôl yr angen.

Hefyd, rhwng 2016 a 2020 roedd gwaharddiad ar gadw draenogiaid môr a ddelir mewn rhwydi o'r lan.

Wedi i'r DU ymadael â'r UE, cyflwynwyd Rheoliadau Pysgodfeydd Môr (Diwygio etc.) 2021 ym mis Mehefin 2021. Roedd y rheoliadau hyn yn cadw'r mesurau rheoli a gwarchod pysgodfeydd a wnaed o dan bolisi'r UE, ond gan ganiatáu newidiadau fyddai'n gweddu'n well i flaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol. Mewn rhai ardaloedd, gwaherddir pysgota am ddraenogiaid môr a'u cadw, eu cludo, eu hadleoli a'u glanio. Diwygiwyd y rheoliadau i ganiatáu eithriad fel bod modd sgil-ddal draenogiaid môr mewn hyd at 50 o rwydi drysu gosod o'r lan ym Mharth Cymru, na chawsant eu gosod o gwch. Hefyd, roedd y diwygiadau'n cynyddu nifer y draenogiaid môr y mae pysgotwyr masnachol yn cael eu dal fel sgil-ddalfa ym mharthau Cymru a Lloegr bob blwyddyn.

Yn dilyn cynnydd ym miomas y stoc silio ([cyngor ICES 2020 ar gyfleoedd pysgota](#)), gwnaed cytundebau yn 2021 - gweler Cofnod Ysgrifenedig yr ymgynghoriadau pysgodfeydd blynyddol rhwng y DU a'r UE - i ganiatáu sgil-ddalfeydd masnachol draenogiaid môr mewn rhwydi gosod o dan rai amgylchiadau. Roedd y cytundebau hyn yn nodi na ddylai gweithgareddau rhwydo masnachol o'r lan dargedu draenogiaid môr a dim ond dalfeydd amhosib eu hosgoi y dylid eu caniatáu. Cytunodd y partiön hefyd yn y Pwyllgor Pysgodfeydd Arbenigol i gyflwyno'r gofyn i gofnodi a monitro dalfeydd rhwydi masnachol o'r lan. Ond oherwydd diffyg adnoddau a blaenoriaethau eraill nid yw hyn wedi'i roi ar waith yng Nghymru eto.

Y rheoliadau presennol ar gyfer rhwydo o'r lan

Ar hyn o bryd mae'r defnydd o rwydi o'r lan yn cael ei reoleiddio gan nifer o ddarpariaethau mewn is-ddeddfau ac offerynnau statudol. Mae'r darpariaethau hyn yn berthnasol mewn gwahanol ardaloedd ac yn rheoleiddio'r defnydd o rwydi o'r lan at wahanol ddibenion.

Mae'r paragraffau canlynol yn rhoi crynodeb:

Mae is-ddeddfau'r hen SWSFC yn berthnasol yn yr ardal a ddisgrifir yn yr Is-ddeddfau hynny. Mae is-ddeddf 30 yn gwahardd gosod a defnyddio unrhyw rwydi gosod yn yr ardal ac ar yr adegau a restrir yn yr is-ddeddf. Mae Is-ddeddf 30 yn rhoi pwerau hefyd i awdurdodi osod a defnyddio rhwydi gosod i ddal Pysgod Môr at ddibenion gwyddonol neu stocio neu fridio.

Mae is-ddeddfau'r hen NWNWSFC yn berthnasol yn yr ardal a ddisgrifir yn Is-ddeddf 24(a). Mae is-ddeddf 24 yn cyfyngu'r defnydd o beiriannau gosod at ddibenion adran 37 o Ddeddf Eogiaid 1986. Gwaherddir gosod a defnyddio peiriant gosod yn yr ardaloedd a ddisgrifir ac am y cyfnodau a nodir yn yr Is-ddeddf.

Mae Is-ddeddf 24(f) yn rhoi pŵer ychwanegol i *wahardd* gosod unrhyw rwyd o'r lan dros dro yn yr ardal rhag dal salmonidau. Byddai unrhyw ddefnydd o'r pŵer hwn yn destun ymgynghoriad cyhoeddus.

Mae is-ddeddfau'r hen SFCs hefyd yn cynnwys cyfyngiadau sy'n ymwneud â natur a'r defnydd o rwydi o'r lan, gan gynnwys hyd rhwyd, maint rhwyllau, pa mor aml y mae'n rhaid eu clirio, a faint o rwydi y caiff unigolyn eu defnyddio ar yr un pryd (gweler Tabl 1 ac Is-ddeddfau 30, 32 a 33 o'r SWSFC ac Is-ddeddfau 7, 8, 11 a 24 NWNWSFC). Dylid nodi nad yw'r cyfyngiadau hyn yn gyson rhwng ardaloedd y gogledd a'r de. Maent yn nodi hefyd nifer o feysydd lle ceir cyfyngiadau eraill, megis cyfnodau caeedig yn ystod y tymor silio. Mae hyn wedi arwain at gau pysgodfeydd helaeth yn enwedig mewn aberoedd ar hyd arfordir Cymru (Ffigur 1).

Ategir Is-ddeddfau'r hen SFCs gan gyfyngiadau pellach o ran lleoliad a chyfnodau caeedig, y tu hwnt i ffiniau'r SFC, trwy Is-ddeddf 3 EA Cymru (De) ac Is-ddeddf 5 EA Cymru (Gogledd).

Mae Is-ddeddfau'r hen NWNWSFC, SWSFC ac Asiantaeth yr Amgylchedd wedi bod mewn grym ers 1 Ebrill 2010 fel pe baent wedi eu gwneud gan Weinidogion Cymru mewn offeryn statudol yn rhinwedd erthygl 13(1), (3) a (4) ac Atodlenni 3, 4 a 5 o Orchymyn Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (Cychwyn Rhif 1, Darpariaethau Canlyniadol, Trosiannol ac Arbedion) (Cymru a Lloegr) 2010.

Mae'r rheoliadau cyfredol ar gyfer pysgota am ddraenogiaid môr yng Nghymru a Lloegr yn cynnwys rheoliadau cymhathedig sy'n deillio o'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (CFP):

- Rheoliad cymhathedig (EU) 2019/1241 y Senedd Ewropeaidd a'r Cyngor dyddiedig 20 Mehefin 2019 ar warchod adnoddau pysgodfeydd a diogelu ecosystemau morol trwy fesurau technegol ("Rheoliad cymhathedig (EU) 2019/1241")
- Rheoliad cymhathedig y Cyngor (EU) 2020/123 dyddiedig 27 Ionawr 2020 gan bennu ar gyfer 2020 y cyfleoedd pysgota am stociau pysgod penodol a grwpiau penodol o stociau pysgod, yn nyfroedd yr Undeb ac ar gyfer cychod pysgota'r Undeb mewn rhai dyfroedd y tu allan i'r Undeb ("Rheoliad cymhathedig y Cyngor (EU) 2020/123")

Ers Brexit, mae'r rheoliadau hyn wedi cael eu cadw a'u haddasu i gyfraith y DU ac, mewn perthynas â physgota am ddraenogiaid môr, maent wedi cael eu diwygio gan yr offerynnau canlynol:

- Rheoliadau Pysgodfeydd Môr (Diwygio etc) 2021
- Rheoliadau Pysgodfeydd Môr (Diwygio etc) (Rhif 2) 2021
- Rheoliadau Pysgodfeydd Môr (Diwygio) 2023

Pysgota masnachol am ddraenogiaid môr gyda rhwydi

Mae Erthygl 10(1) o Reoliad cymhathedig (UE) Rhif 2020/123 yn gwahardd cychod pysgota'r DU a physgodfeydd masnachol o'r lan rhag pysgota am ddraenogiaid môr yn is-adrannau 4b a 4c ICES ac yn is-ardal 7 ICES. Ceir eithriad ar gyfer sgil-dalfeydd mewn hyd at 50 o rwydi drysu o'r lan na chawsant eu gosod o gwch. At hynny, nid oes terfyn wedi'i bennu ar gyfer maint y sgil-ddalfa y caniateir ei dal mewn rhwydi o'r lan.

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw rwymedigaeth i gofnodi dalfeydd rhwydi o'r lan ar CatchApp gan nad yw'n weithgaredd ar gwch, ac nid oes modd cofnodi dalfeydd rhwydi o'r lan ar CatchApp ar wahân. Ar ben hynny, gan nad oes angen cwch i osod

rhwyd ar y lan, nid oes angen trwydded cwch ac felly mae'r dalfeydd y tu allan i ofynion y rheoliadau 'Prynwyr a Gwerthwyr Cofrestredig' (RBS): [Rheoliadau Cofrestru Prynwyr a Gwerthwyr Pysgod a Dynodi Safleoedd Arwerthu Pysgod 2005 \(http://www.legislation.gov.uk\)](http://www.legislation.gov.uk)

Ceir llawer o reoliadau sy'n ymwneud â rhwydo o'r lan yng Nghymru. Er bod yr is-ddeddfau yn gosod nifer o gyfyngiadau gofodol yng Nghymru, gall natur eang yr arfordir, diffyg offer cyfatebol i systemau monitro cychod (VMS) a natur ysbeidiol y gweithgaredd hwn wneud arsylwi arno a'i orfodi'n anodd. Cafodd y rheoliadau presennol eu cyflwyno gan wahanol gyrff at wahanol ddibenion gan arwain at wahaniaethau rhwng y gogledd a'r de. Yn ogystal, nid yw'r rheoliadau cyfredol yn caniatáu newid dulliau rheoli'n gyflym mewn ymateb i dystiolaeth bod y bysgodfa neu'r amgylchedd wedi newid.

Pysgota hamdden am ddraenogiaid môr gyda rhwydi

O dan y rheoliadau cyfredol ar gyfer pysgota hamdden am ddraenogiaid môr, dim ond fel a ddarperir gan Erthygl 10(5) o Reoliad cymhathedig (UE) 2020/123 y gellir cymryd draenogiaid môr. Mae Erthygl 10(5) yn datgan bod y darpariaethau canlynol yn gymwys ym mharth Cymru mewn pysgodfeydd hamdden, gan gynnwys o'r lan:

- a) Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Chwefror a diwedd Mawrth ym mhob blwyddyn galendr, ni chaniateir pysgota am ddraenogiaid môr ond trwy ddal a rhyddhau gyda gwialen neu â lein.
- b) Yn ystod mis Ionawr ac yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill a diwedd Rhagfyr ym mhob blwyddyn galendr, ni chaniateir dal a chadw mwy na dau ddraenog môr fesul pysgotwr y dydd. Y draenog môr lleiaf y caniateir ei gadw yw 42cm.

Nid yw pwynt (b) o'r paragraff cyntaf uchod yn gymwys i rwydi hamdden gosod. Ni chaniateir eu defnyddio nhw ar unrhyw adeg i ddal na chadw draenogiaid môr.

Ardaloedd Silio Draenogiaid Môr (BNAs)

Mae Gorchymyn Draenogiaid Môr (Ardaloedd Penodedig) (Gwahardd Pysgota) 1990 yn gwahardd pysgota am ddraenogiaid môr gan unrhyw gwch pysgota yn yr ardaloedd yng Nghymru a Lloegr a ddisgrifir yn yr atodlen yn ystod y cyfnodau a bennir mewn perthynas â phob ardal. Mae'r BNAs yn cynnwys aberoedd, harbyrau a gollyngfeydd pwerdai lle ceir nifer fawr o ddraenogiaid môr o dan y MCRS ac y gellid eu dal, yn enwedig ym misoedd yr haf.

Dynodwyd y BNAs i leihau effaith pysgota masnachol a hamdden mewn ardaloedd lle'r oedd y rhan fwyaf o ddraenogiaid môr yn debygol o fod o dan y maint cyfeirio cadwraethol lleiaf (MCRS). Credir bod y cyfyngiadau gofodol hyn yn gyfraniad

pwysig at amddiffyn stociau draenogiaid môr trwy wella cyfleoedd y genhedlaeth nesaf.

Mae Gorchymyn 1990 yn dynodi 12 BNA yng Nghymru (Ffigur 2) a rhestrir y cyfnodau cau ar gyfer pob un isod:

Ardal Silio Draenogiaid Môr	Cyfnod cau
Pwerdy Aberddawan	Drwy'r flwyddyn
Cilfach Tywyn	Rhwyng 30 Ebrill a 1 Tachwedd
Aberoedd Taf, Tywi, Gwendraeth	
Aberdaugleddau	
Aber Teifi	
Afon Dyfi	
Afon Mawddach	
Aber Dwryrd/Glaslyn	
Aber Conwy	
Aber Dyfrdwy	

Mae'r cyfyngiadau gofodol hyn yn berthnasol yn unig i bysgota o gwch. Ac eithrio'r Dyfrdwy, gellir defnyddio rhwydi'r glannau o hyd mewn BNAs yn ystod y cyfnodau caeedig. Ar ben hynny, mae rhannau o BNAs pwerdy Aberddawan a Chonwy nad ydynt yn dod o dan y cyfyngiadau ar rwydi gosod . Yn y ddau le, mae risg bosibl o gymryd draenogiaid môr sy'n llai na'r MCRS.

Yn 1999, newidiwyd y prif Orchymyn i wahardd defnyddio llymriaid fel abwyd wrth bysgota am ddraenogiaid môr mewn BNAs.

Pysgod mudol

Mae gan Gymru nifer o rywogaethau o bysgod mudol a allai gael eu dal gan rwydi o'r lan gan gynnwys yr eog, yr herlyn, y wangen, llysywen bendoll y môr (pob un yn nodwedd o Ardal Cadwraeth Arbennig yng Nghymru) a sewin. Mae'n anodd cael data am symudiadau'r rhywogaethau hyn yn y môr. Ar hyn o bryd, heb unrhyw system cofnodi na monitro dalfeydd a gweithgarwch, ychydig o ddata sydd ar gael am sgil-ddalfeydd anfwriadol gan rwydi o'r lan.

Ar 18 Awst 2023, gofynnodd Llywodraeth Cymru i'w chynghorydd cadwraeth natur statudol, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), ystyried a oedd y gyfres bresennol o is-ddeddfau yn rhoi digon o amddiffyniad rhag y risg o sgil-ddal eogiaid sy'n nodwedd dynodedig yn afonydd ACA.

Yn eu hymateb (a ddangosir yn llawn yn Atodiad 1), tynnodd CNC sylw at y ffaith bod eogiaid yn cael eu hystyried 'mewn perygl' ym mwyafrif y 5 afon ACA lle mae

eogiaid yn nodwedd ddynodedig, fel yn llawer i afon arall,. Yn ogystal, cafodd y poblogaethau eogiaid yn yr ACA hyn eu categoreiddio'n rhai 'anffafriol' yn yr asesiad o gyflwr safleoedd gwarchoddedig yn 2020.

Roedd CNC o'r farn bod yr is-ddeddfau presennol yn ddigon i amddiffyn eogiaid mewn afonydd ACA o amgylch aberoedd ond gan nad oes data cadarn ynghylch rhwydo o'r lan, ni allai CNC fod yn hyderus nad yw rhwydi y tu allan i'r ardaloedd dan gyfyngiadau yn effeithio ar eogiaid. Cafwyd adroddiadau ganddo fod tystiolaeth bod eogiaid ym Mhen-bryn, sewin yn Nhre-saith a salmonidau yn Llanon yn cael eu dal gan rwydi o'r lan y tu allan i'r ardaloedd o dan gyfyngiadau. Nodwyd hefyd bod CNC yn ymwybodol o'r cynnydd yn y gweithgarwch rhwydo o'r lan yn aberoedd y Tair Afon ac ym Mhen-bre a Chefn Sidan.

Awgrymodd CNC y dylai Llywodraeth Cymru ystyried rhoi mwy o amddiffyniad i eogiaid a rhywogaethau mudol eraill o ddi-ddordeb cadwraethol, yn benodol:

1. Estyn yr ardal gaeedig bresennol lle mae eogiaid yn debygol o fod yn bresennol.
2. Awdurdodi pob rhwyd o'r lan er mwyn gallu eu rheoli'n well, cadarnhau cydymffurfiaeth, a darparu data am ddalfeydd a'r ymdrech bysgota a fyddai'n helpu i'w rheoli ymhellach.
3. Datblygu cynllun hysbysu a chadarnhau (monitro) cydymffurfiaeth effeithiol ar gyfer gweithgaredd rhwydo o'r lan.

Mewn ymateb i'r canfyddiadau a'r argymhellion, gwnaethom ofyn i CNC am ragor o dystiolaeth i gefnogi eu cyngor. Ar ôl ystyried a oedd hyn yn ddigonol i fod yn sail i gynnig polisi, rydym wedi gofyn i CNC ddarparu rhagor o wybodaeth, fwy penodol, am y dystiolaeth ategol.

Rhywogaethau eraill sy'n agored i gael eu dal

Er mai pysgod mudol fu ffocws yr adolygiad hwn, fel y dywed yr FMP, mae amrywiaeth o rywogaethau eraill a warchodir yn gallu cael eu dal fel sgil-ddalffa mewn rhwydi o'r lan. Yn eu plith y mae mamaliaid fel dolffiniaid, llamhidyddion a morloi, yn ogystal ag adar fel mulfrain.

Yn hanesyddol ychydig iawn o wybodaeth sydd wedi bod am sgil-ddalfeydd rhwydi o'r lan yng Nghymru. Ar 19 Awst 2024 cawsom adroddiadau bod 2 lamhidydd a 3 mulfran yn farw ar y traeth yn Hen Golwyn ger hen rwyd segur.

Mae Rhaglen Ymchwilio y DU i Forfilod wedi Tirio wedi archwilio'r ddau lamhidydd. Dangosodd y post-mortem interim fod marciau ar gyrff y llamhidyddion sy'n gyson â'r rheini a geir pan ddelir corff mewn gêr monofilament. Dylid nodi mai canlyniadau

interim yw'r rhain tra'n bod yn aros i filfeddyg gytuno'n swyddogol ag achos y marwolaethau.

Bu swyddogion a staff CNC yn trafod y digwyddiad ac opsiynau posibl i rwystro sgil-ddalfeydd mewn rhwydi o'r lan yn y dyfodol, a dywedwyd mai dyma'r dystiolaeth gyntaf bendant i staff CNC ei gweld bod llamhidyddion (mam ac un bach) o bosibl wedi cael eu sgil-ddal mewn rhwyd gosod o'r lan yng Nghymru. Fodd bynnag, mae adroddiadau am adar yn cael eu sgil-ddal mewn rhwydi o'r lan wedi bod yn dod i law. Er i hyn ddigwydd y tu allan i safle sydd wedi'i ddynodi ar gyfer y rhywogaethau hyn, mae'n dangos y risgiau y gallai rhwydi o'r fath eu hachosi i adar a mamaliaid y môr.

Materion a nodwyd gan yr adolygiad hwn

Pwrpas yr adolygiad hwn yw penderfynu a oes angen mesurau rhanbarthol neu genedlaethol ychwanegol i amddiffyn pysgod mudol rhag cael eu sgil-ddal gan rwydi o'r glannau yng Nghymru. Ar sail yr adolygiad hwn o'r wybodaeth sydd ar gael, rydym wedi nodi'r problemau canlynol:

1. Er bod llawer iawn o gyfyngiadau ar rwydo o'r lan yng Nghymru, maent yn amrywio rhwng rhanbarthau'r gogledd a'r de ac nid yw'n rhwydd eu haddasu.
2. Gall natur eang yr arfordir, diffyg offer cyfatebol i systemau monitro cychod (VMS) a natur ysbeidiol y gweithgaredd hwn wneud arsylwi arno a'i orfodi'n anodd.
3. Mae'r ardaloedd cau ar gyfer rhwydo o'r lan yng Nghymru ar hyn o bryd yn amddiffyn pysgod mudol rhag cael eu dal o amgylch aberoedd. Ond dylid eu hestyn i'r manau lle ceir tystiolaeth bod angen rhagor o amddiffyniad.
4. Mae diffyg cyfyngiadau ar rwydo o'r lan mewn BNAs. Gellid cadw at yr un cyfnodau caeedig ar gyfer rhwydo o'r lan mewn BNA ag a ddefnyddir ar gyfer rhwydo o gwch. Bydd hynny'n helpu i ddiogelu draenogiaid môr o dan y MCRS a helpu i recriwtio i'r bysgodfa (gweler hefyd nod 7 yr FMP).
5. Ychydig iawn o wybodaeth sydd am ddraenogiaid môr sy'n cael eu dal mewn rhwydi ar y lan. Er mwyn rheoli gweithgarwch rhwydo o'r lan a'r bysgodfa draenogiaid môr yng Nghymru gyfan yn well, mae angen gwybodaeth gywir.
6. Hefyd, ychydig iawn o wybodaeth sydd am holl ddalfeydd a sgil-ddalfeydd rhwydi o'r lan. At ddibenion ehangach rheoli pysgodfeydd ac i sicrhau cynaliadwyedd, mae angen gwybodaeth gywir.

Dewisiadau i ateb y problemau hyn

I ddelio â'r problemau uchod, rydym wedi nodi 3 opsiwn posibl:

1. **Dim newid** – Ni fyddai'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael ag unrhyw un o'r problemau a amlygwyd yn yr adolygiad.

Cyflwyno mesurau gwirfoddol - Gweithredu system cofnodi wirfoddol ar gyfer rhwydwyr o'r lan gan fod aelodau'r WSBAG wedi nodi y byddai rhywfaint o gefnogaeth i hyn. Gellid cyfuno hyn â'r mesurau ychwanegol canlynol i ddiogelu rhywogaethau gwarchoddedig sy'n gysylltiedig â thystiolaeth a ddarparwyd gan CNC yn Atodiad 1 neu dystiolaeth arall a allai godi:

2. **Cyflwyno system wirfoddol ar gyfer cofnodi dalfeydd gyda chyfyngiadau gofodol gwirfoddol** mewn mannau lle ceir tystiolaeth bod angen amddiffyniad ychwanegol.
3. **Cyflwyno system wirfoddol ar gyfer cofnodi dalfeydd ac estyn yr ardal lle ceir cyfyngiadau yn ardal y gogledd** yn amodol ar ymgynghoriad, gan ddefnyddio Is-ddeddf 24(f), sy'n caniatáu gwaharddiad dros dro ar osod rhwydi o'r lan yn yr ardal i leihau'r risg o ddal salmonidau mudol.
4. **Cyflwyno system wirfoddol ar gyfer cofnodi dalfeydd ac offeryn statudol**, yn amodol ar ymgynghoriad, er mwyn gallu addasu'r rheolau mewn ardaloedd lle ceir cyfyngiadau yn ardaloedd y ddwy set o is-ddeddfau mewn ymateb i dystiolaeth.

Byddai opsiynau 2 i 4 ond yn mynd i'r afael yn rhannol â'r problemau uchod ond gallent ei gwneud yn haws gorfodi'r rheoliadau sydd eisoes mewn grym.


5. **Cyflwyno mesurau drwy ddeddfwriaeth** – Trwy gyfuniad o ddiwygio deddfwriaeth a chreu deddfwriaeth newydd, er enghraifft, i greu pysgodfa a ganiateir o'r lan, galleu fynd i'r afael â'r holl problemau uchod. Gallai'r math hwn o reoleiddio alluogi rheolaeth addasol lle gellir amrywio mesurau yn ôl tystiolaeth am y bysgodfa a'r amgylchedd. Byddai unrhyw gynigion yn seiliedig ar dystiolaeth wyddonol a byddai angen ymgynghoriad cyhoeddus cyn newid unrhyw drefniadau rheoli.

Yng nghyfarfod y grŵp cynghori byddwn yn ystyried y problemau sydd wedi'u hamlygu hyd yn hyn, yr opsiynau posibl a ddisgrifir uchod ac unrhyw opsiynau eraill a nodir gan y grŵp. Byddwn hefyd yn trafod sut orau i gasglu data am y gweithgaredd pysgota hwn er mwyn rheoli pysgodfeydd a diogelu rhywogaethau a warchodir yn well.


Tabl 1: Mae'r tabl hwn yn disgrifio'r Is-ddeddfau a grewyd gan yr hen Bwyllgorau Pysgodfeydd Môr y De a'r Gogledd ac Asiantaeth yr Amgylchedd .

Rheoliad	Is-ddeddfau'r De	Is-ddeddfau'r Gogledd
Lleoliad y rhywd	Rhaid clirio pysgod o'r rhywd o leiaf unwaith bob dau lanw os ydych yn ei gosod o dan farc y llanw isel, a bob llanw isel os caiff ei gosod yn y parth rhwng llanw isel a llanw uchel.	Rhaid defnyddio'r rhywidi fel na chaiff salmonidau eu dal. Os delir salmonidau, dylid ail-osod y rhywd gosod fel na all hyn ddigwydd eto.
Hyd y rhywd	Dim mwy na 200m	Dim mwy na 275m
Uchder y rhywd	Ni fydd gan unrhyw rwyd bostyn fwy na 1.25 metr uwchlaw gwely'r môr.	Dim
Pellter rhwng rhywidi eraill (lleiafswm)	200m	137.5m
Maint y rhywll	Pan fydd y rhywll yn cael ei ymestyn yn groeslinol ar hyd y rhywd bydd mesurydd gwastad 100 mm o led a 2mm o drwch yn pasio drwyddo'n hawdd heb bwysau pan fydd y rhywd yn wlyb.	Pan fydd y rhywll yn cael ei ymestyn yn groeslinol ar hyd y rhywd, bydd mesurydd gwastad 89mm o led a 2mm o drwch yn gallu pasio drwyddo'n hawdd a chyda digon o nerth braich. Rhywidi bach: 65mm
Nifer y mwyaf o rwydi	Dim mwy nag un rhywd ar unrhyw un adeg, a rhaid i'r un person sy'n pysgota â hi ac yn ei gwasanaethu ei gosod oni bai ei fod wedi hysbysu'r Pwyllgor cyn gwasanaethu'r rhywd.	Dim
Cyfyngiadau ar ddŵr croyw	Ni ddylid gosod rhywd o fewn 200 metr i unrhyw ffynhonnell dŵr croyw.	Dim


Ffigur 1: Mae'r map hwn yn dangos yr is-ddeddfau a wnaed gan yr hen Bwyllgorau Pysgodfeydd Môr ac Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer y Gogledd a'r De.



Ffigur 2: Map o ardaloedd silio draenogiaid môr (BNAs) yng Nghymru.



Ffigur 3: Map o'r ardaloedd gydag is-ddeddfau sy'n cyfyngu ar y defnydd o rwydi ac o ardaloedd silio draenogiaid môr (BNAs).



Atodiad 1: Cyfoeth Naturiol Cymru: Eogiaid – adolygiad o rwydi gosod o'r lan



Salmon – shore set net review

Ben Wilson (Principal Advisor Fisheries)

Jan 2023

Background

There are several former Sea Fisheries Committees and Environment Agency (Wales) byelaws introduced some time ago to protect migrating Atlantic salmon (*S.salar*) and sea trout (*S. trutta*). All these byelaws are now administered and regulated by the Welsh Government.

Welsh Government are seeking to clarify whether their byelaws provide sufficient protection from the risk of bycatch for populations of Salmon protected under the Habitats Regulations.

Specifically, NRW have been asked to:

1. Confirm [Welsh Government's] understanding of the SAC rivers with salmon as a feature is correct.
2. Review the existing spatial and temporal restrictions afforded by the former byelaws and confirm if they afford reasonable levels of protection to mobile salmon.
3. Identify any gaps which may need to be addressed.

Welsh Government have provided a summary of the byelaws designed to protect salmon and sea trout.

Following internal consultation with NRW Operational enforcement staff, fisheries and marine policy advisors, this document sets out NRW's response to these questions, as well as observations on the status of salmon and sea trout stocks in Wales and future management options.

1. Confirmation of SAC rivers with salmon as a feature.

Under the Habitats Directive, Atlantic salmon are an Annex II species and a primary reason for designation in the following Special Areas of Conservation:

- Afon Gwyrfai a Llyn Cwellyn - Special Areas of Conservation (jncc.gov.uk)
- Afon Teifi/ River Teifi - Special Areas of Conservation (jncc.gov.uk)
- River Dee and Bala Lake/ Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid - Special Areas of Conservation (jncc.gov.uk)
- River Usk/ Afon Wysg - Special Areas of Conservation (jncc.gov.uk)
- River Wye/ Afon Gwy - Special Areas of Conservation (jncc.gov.uk)
- Afon Eden - Cors Goch Trawsfynydd - Special Areas of Conservation (jncc.gov.uk)

We also advise that consideration needs to be made to the Severn Estuary Site of Special Scientific Interest (SSSI), Severn Estuary Special Area of Conservation (SAC), and Severn Estuary RAMSAR. Atlantic salmon and sea trout (*S. trutta*) are part of the assemblage of fish species sub-feature of the Estuaries feature of the [Severn Estuary SAC](#) (Natural England (NE) and Countryside Council for Wales (CCW), 2009). Atlantic salmon and sea trout are also part of the assemblage of migratory fish under Ramsar criterion 4 (JNCC, 1995) of the Severn Estuary Ramsar site. Hence, in relation to the Severn Estuary we also advise on the suitability of protections provided to sea trout as well as salmon

Salmon and sea trout should be considered in any HRAs conducted for changes to netting regulations the Severn Estuary SAC and in the upstream river catchments which drain into the SAC (Taff, Ely, Rhymney, Wye, Usk, Severn, Bristol Avon, Parrett etc.) and should also be considered farther offshore outside the SAC. Hence, we will also advise on the suitability of protections provided to sea trout as well as salmon in relation to the Severn Estuary

In addition to these sites, given salmon are a mobile and migratory species, we consider estuarine and marine migratory routes for these populations as functionally linked supporting habitat for the species and advise impacts on salmon migrating through the marine environment are assessed for various projects

Salmon stock status


Before considering the reasonableness of netting protections, it is necessary to consider the status of stocks in all Welsh rivers, not just those currently protected by byelaws.

Wales has 23 principal salmon river catchments (including the cross-border rivers Wye, Dee, and Severn) for which stock assessments are undertaken and reported upon annually. In 2022 Wales recorded the second lowest catches of both salmon and sea trout since consistent records began in the 1970s.


The map below shows the 2022 salmon assessment with:

- 96% or 22 of the 23 Principal salmon rivers in Wales categorised as 'at risk', and
- Four percent or 1 river, the Mawddach, categorised as 'probably at risk' (CEFAS 2023)

2022



2027 projection



The following SAC rivers are classified as 'at risk'

- [Afon Teifi/ River Teifi](#)
- [River Dee and Bala Lake/ Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid](#)
- [River Usk/ Afon Wysg](#)
- [River Wye/ Afon Gwy](#)

And, the River Mawddach, which comprises the Afon Eden SAC, is categorised as 'probably at risk.'

The 5-year projection to 2027 showed no changes in classification on all rivers.

The Afon Gwyrfai is not one of NRW's principal salmon rivers and as such has not been formally classified against using conservation limit compliance models. Recent and historic juvenile and rod catch data would suggest however that salmon population on the river are below safe biological limits.

All of these salmon populations were classed as being Unfavourable in the 2020 protected sites condition assessment ([here](#)).

Migratory fish assemblage for the Severn Estuary Ramsar site is also considered to be in unfavourable condition, partly due to the status of salmon populations in the Severn Estuary and its associated river catchments.

Salmon have been identified as being Endangered and are one of seven species categorised as being threatened with extinction at the regional level (Nunn et al 2023). NRW published an evidence report (Milner, N. & Garcia de Leaniz, C. 2023) that highlighted the increased risk of salmon populations in Wales dropping below critical thresholds in the coming decade.

Sea Trout stock status

Results from the latest 2022 assessment have shown that from the thirty-three main sea trout rivers:

- 79% or 26 sea trout rivers in Wales are now categorised as being 'At Risk',
- 15% or 5 rivers categorised as 'Probably at Risk'
- 3% or 1 river categorised as 'Probably Not at Risk', and
- 3% or 1 river categorised as 'Not at Risk'. (NRW 2023 Unpublished Report)

Are the levels of protection reasonable?

We have reviewed the temporal and spatial restrictions afforded currently by the Welsh Government byelaws and have considered the evidence available on possible catches within and outside of these restricted areas.

The freshwater inlets protected by the net byelaws include all the named SAC rivers designated for salmon. Therefore, in the close vicinity of the SACs, the protection afforded by current temporal and spatial controls could be viewed as reasonable under the Habitats Regulations.

However, it should be noted that as these fisheries are unlicensed there is a near complete absence of data from set net fisheries in the unrestricted areas, in terms of fishing effort, catch or bycatch. This means that it is difficult to be confident that any nets operating outside of the restricted areas are not affecting salmon or sea trout.

It is presumed the restricted areas named under the byelaws were identified as areas where migratory salmonids were perceived to be at greatest risk from interception in coastal nets operating in and around the mouths of freshwater inlets. We understand that this approach was predicated on the assumption that the majority of returning adult salmon identify and enter their natal river and do not stray in coastal areas between rivers. However, not all salmon return directly to their natal rivers. Swain (1982) demonstrated that returning salmon, tagged as smolts in the River Severn, Wye or Usk, were captured in rivers throughout the Severn estuary. Solomon et al (1999) also demonstrated how salmon entered multiple river estuaries prior to their final entry to fresh water. Likewise, Norwegian Atlantic salmon have been shown to return to coastal waters up to 1100 km away from their natal river on their return migration prior to navigating to their natal river (Uvan et al 2018). It now appears well understood that migration to natal rivers is not

always direct, and some straying and searching behaviour is known to occur in coastal areas. All of this highlights the risk that mobile salmon face in coastal waters between, and not just adjacent to, the mouths of estuaries.

There is also a body of evidence arising from for the Samarch Project ([Home | SAMARCH - SALmonid MAnagement Round the CHannel](#)) demonstrating the vulnerability of salmon and sea trout to set nets in coastal waters between river inlets. Published data on the sampling methods used by the researchers showed that both salmon and sea trout were vulnerable to set nets in coastal waters, including sites not proximal to freshwater inlets. As such, it should be recognised that there is an unquantified risk to salmon of interception by nets in coastal waters between estuaries.

Further evidence from the SAMARCH project (in prep) also shows that migratory salmonids utilised the entire water column and could be potentially exposed to bottom as well as surface set nets. It should also be noted that most salmon and sea trout retrieved from these nets were either dead or moribund. This may have relevance to the former South Wales Byelaw 30 which prescribes how authorised fixed nets are to be used and cleared of fish.

- (1) Any fixed net authorised by these byelaws shall be cleared offish at least once every two tides if set below the low water mark, and at every low tide if set in the intertidal zone, and any salmon or sea trout (sewin) or undersized sea fish which is caught by such net shall be returned to the sea immediately upon the clearing of the net, whether dead or alive, and if alive, with as little injury as possible.

The experience of NRW enforcement staff, supported by the findings of the SAMARCH report, suggests that any salmon or sea trout caught in nets are unlikely to survive long enough to be released unharmed if this was to be considered mitigation in any future HRA.

Given the paucity of data from this unlicensed fishery and the knowledge that salmon are taken as bycatch in unrestricted areas it is not possible to be confident that the level of existing protection afforded by the Welsh Government byelaws adequately protect migratory salmon and sea trout of SAC populations. As previously described, due to the considerable decline in stocks, run size and the conservation status of both salmon and sea trout any additional loss due to net bycatch would likely have an adverse effect on the number of returning adults.

Evidence from NRW enforcement activity

Due to limited resources, it has not been routinely possible for NRW enforcement staff to check nets in the permitted areas as:

- Nets are set without the requirement to notify either NRW or WG enforcement teams, thus making compliance monitoring almost impossible and extremely labour intensive, especially in winter.

- Nets are inspected as the tide goes out regardless of what time of the day or night, which places additional resourcing pressures on enforcement staff

As a result, the extent of any current salmonid “bycatch” across Wales remains unclear.

We do however have direct evidence that salmon and sea trout have been intercepted in some unrestricted areas where netting is currently permitted. This includes the following areas

1. Pebnbryn beach, Ceredigion, North of the Teifi Estuary. This beach is targeted for bass by shore netters, and we are aware that salmon is a frequent by-catch.
2. Tresaith beach- This beach is also targeted and is next door to Penbryn. Sea trout were taken from this beach
3. Llannon beach- Ceredigion coast. This beach is a fair distance from the Teifi Estuary, but salmonids are caught as by-catch at this location also.

Evidence of the illegal taking of salmon and sea trout from these was used in a recent prosecution case.

We are also aware that there is an elevated level of fishing activity in the Three Rivers estuary, which is adjacent to the River Tywi SAC. Whilst salmon are not a designated feature of the Tywi, one of the designated species, shad, is likely to be at risk.

Gaps to be considered

- The collection of effort, catch and bycatch data for net fisheries, through a net permit and reporting condition. Without this information it is hard to determine the level of risk nets pose in specific locations.
- The survival rate of released bycatch.
- Former south Wales byelaws do not allow for the adaptive implementation of additional controls.
- The current question relates specifically to salmon. Other protected SAC species, such as Shad (Twaite and Allis), should also be considered when assessing the possible impacts of these net fisheries.
- There are additional fish species listed under Section 7 of the Environment Act Wales 2016 and under SSSI legislation that Welsh Government should consider if reviewing their netting regulations.
- More detailed assessment of the movements of salmon and sea trout in coastal waters.

Summary

The existing Welsh Government byelaws provide some protection to salmonids in the vicinity of several specified rivers. The level of protection provided would have been considered reasonable when they were made, given the status of stock at the time and the working assumption that salmon, in particular, were thought most at risk in waters adjacent to their natal rivers. However, there is reduced confidence in reaching the same conclusions now due to:

- The declining conservation status of salmon (and in some cases sea trout), highlighting the need to provide enhanced protection around the coast of Wales.
- Salmon migration is not direct. Salmon and sea trout have been intercepted by shore nets outside the byelaw exclusion areas, as evidenced in recent enforcement cases undertaken by NRW
- There is minimal fishery data on which to assess the impact of exclusion zones and legal net fisheries.
- Resource pressures and the nature of these fisheries often means compliance activity on these net fisheries is limited.

There is little assurance that the risks to salmon and sea trout in the marine are fully understood or managed.

On this basis we suggest that consideration is given to providing greater protection to mobile salmon, as well as other migratory species of conservation interest, such as sea trout and shad.

Additional protection measures could include:

- i) Extending the byelaw protection zones to include additional areas where salmon are likely to be present. A more detailed assessment would be required to identify specific areas, but priority areas would include sites where migratory salmonids have been shown to be taken, including (*inter alia*)
 - (a) Llanon Ceredigion
 - (b) Penbryn Ceredigion
 - (c) Tresaith beach Ceredigion
 - (d) 3 Rivers, Pembrey and Cefn Sidan, Carmarthenshire
- ii) Authorising of all shore nets would allow better control, would support compliance checking and would provide effort and catch data that would support further controls.
- iii) Developing an effective notification and compliance checking (monitoring) scheme for shore netting activity.

- iv) The provision of adaptive management controls in south Wales could be considered.

Consideration should also be given to other SAC features that may be affected e.g., Twaite and Allis shad and to other protected fish species under relevant legislation.

References

CEFAS, 2023. Salmon Stocks and Fisheries in England and Wales in 2022

Lecointre, T. Scott, L & Roberts, D. 2022 Catching migratory salmonids at sea for the SAMARCH Project 2019 & 2021. Game and Wildlife Conservation Trust Report

Severn Estuary SAC, SPA and Ramsar Site: Regulation 33 Advice from CCW and Natural England, June 2009

Milner, N. & Garcia de Leaniz, C. 2023. The identification and characterisation of small salmon populations to support their conservation and management. NRW Evidence Report No: 674

Nunn et al (2023) Extinction risks and threats facing the freshwater fishes of Britain Aquatic Conservation: Marine and Freshwater Ecosystems, Volume33, Issue12, pp 1460-1476

Solomon D.J., Sambrook, H.T. & Broad, K.J. (1999) Salmon migration and river flows: Results of tracking radio tagged salmon in six rivers in South West England. R&D Publication 4:1-110. Bristol: Environment Agency

Swain A., 1982. The migrations of salmon (*Salmo salar* L.) from three rivers entering the Severn estuary. J. Cons. Int. Explor. Mer, 40(1), pp76-80

Eva Marita Ulvan, Anders Foldvik, Arne Johan Jensen, Bengt Finstad, Eva Bonsak Thorstad, Audun Håvard Rikardsen, Tor Fredrik Næsje. (2018) Return migration of adult Atlantic salmon (*Salmo salar* L.) to northern Norway. ICES Journal of Marine Science, Volume 75, Issue 2, March-April 2018, Pages 653–661,